

LF 1217.5 IS 1954

PATY


# IFOR CERI NODDWR CERDD

(1770-1829)

*Darlith Agoriadol  
yr Athro Cymraeg  
a draddodwyd yn y Coleg  
4 Tachwedd 1954  
gan*

YR ATHRO STEPHEN J. WILLIAMS

M.A., D.LITT.



COLEG Y BRIFYSGOL · ABERTAWE

LF  
1229

11

73561 (11)

LF 1227  
LF 1217.5 JS 1954

AM

1001443065



This book must be returned immediately it is asked for by the Librarian, and in any case by the last date stamped below.

RECALLS  
1976  
MAX  
ANNUAL

U.C.S.  
19 JUN 1992

SWANSEA UNIVERSITY COLLEGE LIBRARY.

COLEG Y BRIFYSGOL · ABERTAWE

IFOR CERI—NODDWR CERDD

(1770-1829)

*Darlith Agoriadol  
yr Athro Cymraeg  
a draddodwyd yn y Coleg  
4 Tachwedd 1954*

*gan*

YR ATHRO STEPHEN J. WILLIAMS

M.A., D.LITT.

## IFOR CERI—NODDWR CERDD

(1770-1829)

**D**A gennyf yn gyntaf ddal ar y cyfle hwn i ddweud mai braint fawr yw cael dilyn yn ei swydd ŵr mor nodedig â'r Athro Henry Lewis, a fu'n Bennaeth yr Adran Gymraeg yn y Coleg hwn o adeg ei sefydlu yn 1921 hyd y flwyddyn hon, ac a sicrhodd ffyniant yr adran hon drwy ei ddoniau a'i ymroddiad. Dymunaf ddiolch iddo hefyd am y cymwynasau lawer a dderbyniais ganddo yn ystod y tymor maith y bûm yn gysylltiedig â'r Coleg.

Yn gymharol ddiweddar y daeth haneswyr a beirniaid llenyddol i gydnabod mai braidd yn eithafol a rhagfarnllyd oedd peth o'r dilorni a fu ar gynnyrch diwylliannol a safonau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg yng Nghymru. Erbyn hyn cydnabyddir bod yn gymysg â gwaith tila, bas, yn y ganrif honno gyfraniad gwir fawr a phwysig i amryw weddau ar ein diwylliant. Dangoswyd inni, fel y gwnaeth yr Athro G. J. Williams, er enghraifft, yn achos W. O. Pughe, nad teg a chytbwys oedd ein barn am rai dynion y dywedid nad oedd ynddynt ddim rhinweddau. Collasom olwg ar weithgarwch ambell un na fu fawr o sôn amdano wedi'i ddydd, ond a gyflawnodd ddirfawr wasanaeth i'w genedl serch hynny. Un o'r rhain yw'r gŵr a ddewisais yn destun i'r ddarlith hon.

Mewn llythyr a ysgrifennwyd yn 1803 ceir y frawddeg Saesneg hon: 'If I could entertain the hope of ever being able to sit down on my little paternal estate among my friends, unencumbered of its embarrassments, I think it would be a high enjoyment, and I should envy no higher.'

Ar fwrdd llong ryfel ('Theseus') yn ymyl un o ynysoedd

India'r Gorllewin yr ysgrifennwyd y llythyr, a hynny gan gaplan y llong, gŵr ifanc o Gymro yn dwyn yr enw John Jenkins. Ni chafodd ei ddymuniad yn llythrennol, canys nid ar ei dreftadaeth yng Ngheredigion y cafodd dreulio gweddill ei oes. Ni fu ychwaith yn rhydd oddi wrth y trafferthion a berthynai i'r stad a etifeddasai. Ond efallai y cawn weld mai graddol ennill rhyw dreftadaeth fwy—treftadaeth ddiwylliannol—fu ei ran o'r flwyddyn honno hyd ddiwedd ei oes.

Gellir darllen amryw fywgraffiadau byrion o John Jenkins, a'r rhan fwyaf ohonynt yn seiliedig ar y 'Gwiw-Gofiant' iddo a gyhoeddodd ei gyfaill y Parch. Walter Davies (Gwallter Mechain) yn y Gwyllydydd yn 1931.<sup>1</sup> Eithr pur annigonol yw'r cofiant byr hwn: ceir gwybod llawer mwy am y Parch. John Jenkins a deuir i'w adnabod yn well o ddarllen y stôr o lawysgrifau a llythyrau perthynol iddo sydd ynghadw yn y Llyfrgell Genedlaethol yn y casgliad a elwir yn 'Crosswood MSS.' ac mewn rhai casgliadau eraill megis y 'Tonn MSS.' yn Llyfrgell Dinas Caerdydd.

Mewn plasty o'r enw Cilbronnau ym mhlwyf Llan-goedmor, ac yn ymyl tref Aberteifi, y ganed John Jenkins, 8 Ebrill 1770. Ef oedd yr hynaf o bump o feibion Griffith a Mary Jenkins, disgynyddion o 'uchel achau' yng Ngheredigion a Phenfro. Yn ôl un awdurdod ar hen deuluoedd bonheddig siroedd Cymru, Thomas Nicholas,<sup>2</sup> buasai Cilbronnau ym meddiant y teulu hwn ers canrif-oedd, ac yr oedd ganddynt bais arfau ac arwyddair ('Da yw ffon amddiffyniad') er dyddiau Cromwell.

<sup>1</sup> Cyhoeddwyd yn llawn yn *Gwaith Gwallter Mechain* (gol. D. Silvan Evans), cyf. ii, pp. 413-25. Ymddangosodd cofiant byr yn Saesneg yn y *Cambrian Quarterly Magazine*, Ion. 1830. Ni cheir gan Wallter Mechain lawer mwy na braslun o yrfa Ifor Ceri (heb fod bob amser yn gywir yn y manion, megis dyddiadau), ac ni sonia fawr am ei brif ddiddordebau na'i weithgarwch pennaf.

<sup>2</sup> *Annals and Antiquities of the Counties and County Families of Wales*, i. 196, 1872.

Dichon nad ymfrostiai aelodau'r teulu ryw lawer yn eu bonedd erbyn diwedd y ddeunawfed ganrif, canys pan ymaelododd John yng Ngholeg yr Iesu, Rhydychen, cofnodwyd mai un o'r werin oedd ei dad.

Bu farw Griffith Jenkins, 13 Hydref 1781, yn 38 oed, gan adael ar ei ôl ei weddw a phump o blant, a'r hynaf ohonynt heb fod ond un ar ddeg oed ar y pryd. Bu Mary Jenkins yn weddw am dair blynedd a deugain hyd ei marw hithau yn 81 oed, 23 Medi 1824. Llwyddodd i ofalu am y stad hyd oni thyfodd rhai o'r meibion yn ddigon hen i'w chynorthwyo. Ar y mab hynaf, John, y syrthiodd y cyfrifoldeb gweinyddol a'r gwaith o helpu'i fam i drefnu gyrfa i bob un o'i frodyr. Ymgymrodd yr ail fab, Jonathan, â ffermio'r tir a berthynai i'r stad, ac yn yr hendref yr arhosodd ef tra bu'i frodyr yn rhodio'r byd. Aeth y trydydd, Thomas, i'r môr, a bu'n dal swyddi cyfrifol ar longau masnach. Codwyd Jeremiah, y pedwerydd mab, yn feddyg. Bu yntau ar y môr, yn feddyg yn y llynges, ond ar y tir yn Lloegr y treuliodd y rhan fwyaf o'i oes. Dysgodd Griffith, yr ieuaf, waith tir-fesurydd, ac yng nghartref teulu ei wraig yn ymyl Llandudoch yr ymsefydlodd ef wedi gadael Cilbronnau. John oedd yr unig un o'r bechgyn, felly, a gymerodd urddau eglwysig.<sup>1</sup>

(Ymddengys mai'r olaf o'r teulu a fu'n byw yng Nghilbronnau oedd Syr Laurence Hugh Jenkins (1857-1928), a enillodd enwogrwydd mawr fel barnwr yn yr India. Wyr oedd ef i'r tir-fesurydd, Griffith, y mae amryw o'i ddisgynyddion yn fyw heddiw yng Nghymru a gwledydd eraill. Bu Syr Laurence Jenkins yn Brif Farnwr mewn dwy dalaith yn yr India, ac wedi iddo ymddeol galwyd am ei wasanaeth ar y bwrdd a fu'n trefnu'r ffin rhwng Gogledd Iwerddon a'r Dalaith Rydd yn 1924.)<sup>2</sup>

<sup>1</sup> NLW MSS. 1896-7. Jenkins Family Letters.

<sup>2</sup> DNB.

O'r holl lythyrau a gadwyd o waith aelodau teulu Cibronnau—ac y mae ugeiniau ohonynt—ni welais gymaint ag un wedi'i ysgrifennu yn Gymraeg. Ond prin y gall fod amheuaeth nad Cymraeg oedd iaith yr aelwyd. Nid oedd y fam yn gyfarwydd iawn ag ysgrifennu o gwbl, ac nid oedd ganddi lawer iawn o gras ar y Saesneg, a barnu wrth yr ychydig bytiau o lythyrau o'i gwaith hi yn y casgliad. Yn un ohonynt, a gafodd John ganddi pan oedd ef yn Rhydychen, fe ddywed 'My brother has desire you to enquire [*sic*] about the Welsh Bibles whether are they most ready.' Gellir casglu hefyd o ddarllen llythyrau cynnar y brodyr mai yn Gymraeg y byddent yn meddwl.

Mae cynnwys llythyrau'r teulu hefyd yn dangos yn eglur nad mân foneddigion yn byw yn eu cylch eu hunain oeddynt hwy, ond teulu yr oedd eu diddordebau a'u gweithgarwch yn rhan o fywyd cymdeithas wledig eu bro. Digwyddiadau cyffredin, helynt hwn-a-hwn a hon-a-hon, ac ambell stori flasus am bechodau hysbys yr ardalwyr—dyna'r 'newyddion' o hyd.

Ychydig iawn o gyfeiriadau a welais i at addysg y plant, ond fe ddywed Gwallter Mechain fod John wedi bod yn 'y Brif Ysgol' yng Nghaerfyrddin, sef yr Ysgol Ramadeg, mae'n debyg. Gwyddom iddo ymaelodi yng Ngholeg yr Iesu, Rhydychen, yn 1789, pan oedd yn 19 oed. Symudodd yn fuan i Goleg Merton, gan fod perthynas iddo, y Parch. Ddr. John Lewes, offeiriad Whippingham ar Ynys Wyth, wedi llwyddo i gael cymorth ariannol iddo fel 'commoner' yn y coleg hwnnw. (Yr oedd gan Dr. John Lewes frawd yn gyfreithiwr yn Llundain, Syr Watkin Lewes,<sup>1</sup> a cheir sôn am y ddau yn llythyrau'r bechgyn at eu mam. Ymddengys mai plasty o'r enw 'Llysnewydd' oedd eu hen gartref.)

Y mae'n hawdd gweld mai byd trafferthus a dygn iawn oedd ar y teulu pan oedd y bechgyn yn cael hy-

<sup>1</sup> Yr oedd yn aelod o'r Cymmrodorion yn 1755; *Cymmrodor*, l. 249.

fforddiant i ymgymhwyso ar gyfer eu gwahanol alwedigaethau. Nid oedd stad Cilbronnau yn rhoi fawr ddim mwy na chynhaliaeth iddynt. Prin iawn oedd arian parod: sôn o hyd am drafferthion ariannol: eisiau arian ar 'Tommy' i brynu dillad addas i fynd ar ei long i'r dwyrain, neu ar Jeremiah, y meddyg, i dalu'i ddyledion cyn hwylio gyda'r llynges, neu ar Griffith i dalu am ei brentisiaeth ym Mryste. Sonnir am fentyca arian gan hwn a'r llall a gwystlo rhannau o'r stad, ac yn y blaen.

Cymerodd John ei radd yn Rhydychen yn 1793 ac urddwyd ef yn offeiriad yn Chwefror 1794. Yna cafodd fynd yn gurad i'w ewythr yn Whippingham, lle y bu'n gwasanaethu am bum mlynedd. Ond fe'i siomwyd yn Dr. John Lewes, canys ni chafodd fwy na £50 y flwyddyn o gyflog tra bu yno. Daeth ymwarded iddo drwy gael ei benodi'n gaplan ar y llong ryfel 'Agincourt' a oedd ar y pryd yn Spithead. Dywed mewn llythyr fod ei ddyledion ar yr Ynys erbyn hynny yn £30.<sup>1</sup>

Mwynhaodd ei fordaith gyntaf yn fawr—i Newfoundland, ac yn ôl i Spithead ymhen rhyw bedwar mis yn Nhachwedd 1799. Bu'r Agincourt yn crwydro mor bell â'r Canary Islands ac yn ôl yn gynnar yn 1800. Ni wyddom pa mor hir yr arhosodd y Parch. John Jenkins yn

<sup>1</sup> Dywedasai wrth ei fam mewn llythyr o Lundain, 10 Chwef. 1794: 'Doctor Lewes has behaved with great kindness to me ever since I came to town. . . .' Ond wedi dychwelyd i Spithead o'i fordaith gyntaf, dyma a ddywedodd: 'I can only say in a few words, that I have been very happy; and that I lament I did not enjoy the same society for the last four years, instead of losing myself as it were in the Isle of Wight, and encumbering myself with debts to support another's meanness [*sic*]. [Diau mai Dr. Lewes oedd yr 'another']. . . . By remaining in the Isle of Wight during the last year on a Curacy of £50 pr. ann. it has so involved me that I know not how to extricate myself: I owe now £30 in the Island which I should in honour pay before Christmas. I am not anxious that I can tax myself with any act of extravagance, But I have been deluded by the vain hope that Doctor Lewes would and could do something for me. It might naturally be my wish at my age to settle on my small paternal property and enjoy the Society of those who are dear to me, indeed it is my warmest wish could I do it with comfort to myself & Friends: But I fear it will be long before I shall be gratified.' Llythyr at ei fam, 10 Tachwedd 1799.

gaplan arni wedi hynny, ond erbyn gwanwyn 1801 yr oedd gartref yng Nghymru mewn rhyw drafodaeth flin â chyfreithwyr ynghylch rhyw eiddo. Gellir casglu bod yr achos hwn wedi mynd yn golledus iawn i'r teulu.

Ym Mehefin 1801 cawn ei fod yn mynd o Lundain i Chatham i ymuno â llong ryfel arall, 'Theseus', fel caplan. Bu honno ar grwydr yn y moroedd cyfagos am rai misoedd hyd oni hwyliodd i'r gorllewin, yn Ionawr 1802. Galw yn Barbadoes ac yna i Jamaica. Treulio misoedd yn mynd o'r naill ynys i'r llall mewn tywydd drwg iawn, gan ddychwelyd bob hyn a hyn i le y dysgodd ei gasáu'n fawr—Port Royal, Jamaica ('perhaps the most abandoned spot on the globe'). Gadael y lle melltigaid hwnnw yn Awst a chyrraedd Halifax, Nova Scotia, er llawenydd i bawb. Ond troi oddi yno ymhen mis, ac yn ôl i Port Royal, o bob man dan yr haul.

Bu'n helbulus iawn ar y dynion gwynion yn y parthau hynny ar dir a môr: y brodorion yn San Domingo yn gwrthryfela'n ffyrnig a chreulon, a'r fad felen yn peri difrod mawr ymhlith y dynion gwynion. Bu caplan y 'Theseus' mewn enbydrwydd mawr ac enillodd edmygedd y prif lyngesydd, Arglwydd Radstock, am ei ddewrder a'i ffyddlondeb. Y mae gan Wallter Mechain hyn i'w ddweud am un o'i arferion yn yr enbydrwydd hwn: 'Dywedai Mr. J. y byddai arferol, pan oddiweddai y pruddglwyf (rhagfynedydd yr haint) ef—pan oedd ei gyd-forwyr yn meirw ar ddeheu ac ar aswy iddo gymmeryd ei grwth (*violoncèlo*), a chwareu arni rai o beraidd donau Gwent a Morganwg, y rhai ydnyt lawer mwy bywiog a chynhyrfiol nag arafach geinciau Gwynedd a Dyfed.' Tebyg mai'r *'cello* oedd y'crwth', canys dywed John Jenkins mewn llythyr ymhen blynyddoedd ei fod yn gyfarwydd â'r offeryn hwnnw. (Nid offeryn hylaw iawn i'w gadw ar fwrdd llong ryfel, mi allwn feddwl!)

Yn ôl ei lythyrau nid amharwyd ar ei iechedd yng

nghyfnod ei anturiaethau ar y môr, ond erbyn diwedd 1803 yr oedd yn cyfaddef fod yr hinsawdd yn effeithio arno er drwg. Bellach yr oedd yn dyheu am roi'r gorau i'r môr ac achubodd y cyfle cyntaf a gafodd i hwylio i Loegr, a hynny ar y 'Bellerophon'. Cyrhaeddodd Gilbronnau ym mis Hydref 1804, ac yn ddamweiniol iawn daeth ei ddau frawd hwythau o'u llongau yno'r un pryd.

Arhosodd John Jenkins gartref dros y gaeaf i adgyfnerthu, ac yn haf 1805 cafodd reithoriaeth Maenor Deifi yn ei fro ei hun. Drwy gymeradwyaeth ei gyn-lyngesydd, Arglwydd Radstock, penodwyd ef yn gaplan i'r Dug Clarence, sef wedi hynny, y Brenin William IV. Dygodd hyn iddo anrhydedd ac efallai fudd ariannol.

Y mae awgrym neu ddau yn ei lythyrau o'r môr ei fod wedi chwynych bywoliaeth yng Nghymru, ond nid oes arwyddion fod ganddo ym mlynnyddoedd cynnar ei oes unrhyw gariad arbennig at Gymru ar wahân i'w serch at ei gartref a'i fro enedigol. Ond y mae rhyw awgrym yn stori'r *'cello* ei fod wedi ymddiddori yn alawon Cymru'n bur ifanc. Ac yn ôl tystiolaeth y cerddor John Parry (Bardd Alaw) yr oedd wedi dechrau casglu ceinciau gwahanol ardaloedd mor gynnar â thua 1790, h.y. yn ystod ei dymor yn Rhydychen.<sup>1</sup>

Bu'r cyfnod byr a dreuliodd ym Maenor Deifi yn gyfle iddo ymgydnabod o'r newydd â bywyd Cymru wledig. Mae'n debyg mai gwasanaethau Cymraeg yn unig a gynhelid yn yr eglwys yno yn ei amser ef, canys dywedir mai gan Alun (Y Parch. John Blackwell) y dechreuwyd cynnal rhai Saesneg, tuag 1833.<sup>2</sup>

Ymhen dwy flynedd, yn 1807, penododd Esgob Tyddewi, Dr. Thomas Burgess, ef yn Ficer Plwyf Ceri yn Sir Drefaldwyn. Er mai Sais oedd yr Esgob Burgess, bu'n fawr ei sêl o blaid iaith a diwylliant Cymru tra bu'n byw

<sup>1</sup> *Welsh Harper*, vol. ii, p. 17, note 6.

<sup>2</sup> *Ceinion Alun* (gol. Gutun Padarn), t. 48.

yma. Ac wedi iddo fynd yn ôl i Loegr yn Esgob Salisbury parhaodd cyfeillgarwch mawr rhyngddo a Ficer Ceri.

Yr oedd plwyf Ceri yn fywoliaeth dda, er bod y persondy mewn cyflwr drwg iawn pan aeth John Jenkins yno. Ond yr oedd fferm dda yn perthyn i'r fywoliaeth, ac nid gorchwyl anghyfarwydd i fab Cilbronnau oedd goruchwyllo gwaith y fferm honno. Aeth ati ar unwaith i ailgodi'r ficerdy ac adeiladau eraill, er na dderbyniodd (yn ôl Gwallter Mechain) ond 'yng nghylch degwm yr hyn oedd gyfiawn ddyledus iddo gan gynnrychiolwr yr hen offeiriad'. Ac yr oedd y persondy newydd yn 'un o'r helaethaf a'r harddaf yn yr esgobaeth'. Tueddaf i gredu mai o fwriad y gwnaeth ef mor helaeth am ei fod, ond odid, yn rhagweld y defnydd y gallai'i wneud ohono rhag llaw i hyrwyddo'i amcanion arbennig. (Yn y tŷ braf hwn y trigai ficeriaid Ceri hyd yn ddiweddar iawn.)

Diddorol iawn yw'r cyfrifon manwl yn llaw'r ficer o'r arian a drafodid ynglŷn â'r fferm a'r tŷ o 1809 hyd 1826. Yn y rhain ceir manylion am gyflogi gweision a morynion (ar amodau teg a dynol, gyda llaw), am werthu anifeiliaid ac ŷd, ac am osod caeau a rhandiroedd i wahanol bobl, yn ogystal â chyfrifon lawer am fwydydd a gwahanol fathau o ddiodydd. Y mae'n amlwg fod y ficer yn ffermwr tra llwyddiannus!

Mewn lle fel hwn, ar ôl ei helbulon a'i anturiaethau, gallasai'r Parch. John Jenkins, pe dymunasai, fwynhau bywyd lled ddigyffro, gan ymroddi i ofalu am ei blwyf a'i eiddo. Ond fel amryw offeiriad pybyr eraill yng Nghymru yn yr oes honno, fe ymglywodd â galwadau eraill.

Yn ôl ei dystiolaeth ei hun yr oedd plwyf Ceri wedi Seisnigeiddio i raddau helaeth cyn iddo fynd yno. 'The language,' medd ef mewn disgrifiad o'r ardal, 'as appears from the Registers and other written Documents was Welsh throughout the Parish about the commencement

of the last century. About the year 1750 English came to be generally spoken in the lower half of the parish; and at present only very aged persons have any knowledge of the Welsh Language.'<sup>1</sup> Ni allwn lai na chredu mai yn eu hiaith eu hunain y byddai ef yn gweini i'r hen blwyf-olion hyn.

Eithr nid oedd yr hen ddiwylliant wedi llwyr farw yn y plwyf, a bu'r ficer yn ddigon craff i nodi'r hen benillion a'r hen geinciau a gofai'r hen drigolion, er na chafodd fod plwyf Ceri mor ffrwythlon yn hyn o beth â phlwyf Darowen, yn yr un sir. Yng Ngheri hefyd cafodd y ficer hamdden a chyfle i gyfeillachu â nifer o offeiriaid a ymddiddorai'n fawr yn hanes a hynafiaethau Cymru, ac yn ei hiaith a'i llenyddiaeth a'i cherddoriaeth. Ymhlith y rhain yr oedd Walter Davies (Gwallter Mechain), Ficer Manafon, W. J. Rees, Rheithor Casgob, David Rowland (Dewi Brefi), curad yng Ngharno a Llanwnnog, Thomas Richards, periglor Darowen a'i feibion—bu ganddo bump ohonynt yn offeiriad yn Nhrefaldwyn, a'r mwyaf adnabyddus oedd David (Dewi Silin) a Thomas a gadwai ysgol yn Aberriw. Yn fuan iawn daeth yr offeiriad hyn i wybod am y croeso anghyffredin a oedd i'w gael bob amser ym Mhersondy Ceri.

Bu i'w ddiddordeb cynyddol yn yr hen alawon traddodiadol a'r penillion a genid arnynt ei ddwyn i gysylltiad â beirdd a thelynorion a chantorion, ac fe gynyddai cylch ei gydnabod fel y lledai'r sôn am y croeso (ac y mae digon o dystiolaeth nad croeso 'sych' ydoedd!). Yr oedd ffasiwn y ffugenwau mewn bri, ac wrth y rhain yr adwaenid ei gyfeillion, e.e., Gwilym Cawrdaf, Bardd Nantglyn, Gwilym Padarn, Tydain Gwynedd, Gwilym Ddu Glan Hafren, Dewi Brefi, Dewi Silin, ac yn ddiweddarach Ieuan Glan Geirionydd a Ieuan Ddu Glan Alun

<sup>1</sup> NLW MS. 1882. Cyhoeddwyd disgrifiad ganddo o'r ddau blwyf Ceri a Mochdref: Cathrall, *The History of North Wales*, ii. 322-6.

(Alun). Dechreuodd John Jenkins ei alw ei hun yn 'Ioan Ceri', ond fel yr amlhaodd y cyfarfodydd (neu'r 'eisteddfodau', fel y gelwid hwy weithiau) dan ei do aethpwyd i'w alw'n 'Ifor Hael o Geri' neu'n 'Ifor Ceri'.

Heblaw ymweliadau achlysurol ceid cynullïadau mwy rheolaidd a swyddogol. Mae sôn am un o'r rhain mor gynnar â 1813 mewn llythyr gan Wallter Mechain at W. J. Rees, Casgob.<sup>1</sup> Fe geid ynddynt lawer o hwyl ar ysgrifennu englynion a chywyddau a phenillion ar y pryd, fel y dengys rhai cofnodion a gadwyd,<sup>2</sup> ac ar ganu ar y tannau, ac yn y blaen. Yno y canodd Ieuan Glan Geirionydd un o'i englynion mawr:

'Cymmariaeth rhwng y byd a'r Môr'  
Mal llong yr ymollyngais—i fôr byd,  
Dros ei ferw byw hwyliais;  
Ni ellir gweld, er llwyr gais,  
Fy ôl y ffordd drafaelïais.

Ac yno hefyd y canodd Alun ei delyneg enwog 'Pennillion i'r Eos' ('Cathl i'r Eos'), 'ar fesur Eos y Bele neu Tri a Chwech'. Byddai'r beirdd wrth ganu ar fesurau rhyddion bob amser yn nodi'r alaw y cenid y gân arni. Hynny yw, bwriedid y penillion i'w canu, ac nid damwain yw bod y beirdd y rhan amlaf yn deall cerddoriaeth. Yr oedd rhai ohonynt yn delynorion eu hunain, e.e., Ieuan Glan Geirionydd. (Efallai fod Ifor Ceri ei hun a'r ferch a ddaeth yn wraig iddo ill dau'n canu'r delyn.)

O gwmpas y Calan neu yn gynnar yn Ionawr y cenhelid y cyfarfodydd rheolaidd yng Ngheri, a byddai'r gwahoddedigion yn treulio amryw ddyddiau gyda'i gilydd. Nid ymddifyrru ac ymddiddanu oedd yr unig amcan. Byddid yn trafod llanyddiaeth a chynhyrchion rhai o'r eisteddfodau a gynhelid yng Ngogledd Cymru, a hefyd bynciau eraill yn ymwneud â bywyd Cymru,

<sup>1</sup> *Gwaith Gwallter Mechain*, iii. 382.

<sup>2</sup> NLW MS. 1899. 'Lloffion Cymraeg'.

megis y priodoldeb o gyhoeddi llsgrau Cymraeg. Un o'r seiadau pwysicaf oedd honno a gynhaliwyd o gwmpas dydd Calan 1818. Yr oedd y Parch. David Rowland (Dewi Brefi) newydd ddychwelyd i Gymru o Newfoundland, lle buasai'n genhadwr dros y 'Gymdeithas er Taenu'r Efengyl mewn Parthau Tramor'. (Ar gymeradwyaeth Ficer Ceri y penodasid ef i'r gwaith gan yr Esgob Burgess.) Daeth David Rowland i Geri erbyn diwedd Rhagfyr 1817, a bu'r beirdd yno'n ymarfer â'u doniau'n ddifyr a chwareus. Ond bu yno hefyd drafod difrifol ar agweddau ar ddiwylliant Cymru, ac awgrymodd Rowland mai da o beth fyddai cael rhyw fardd i ddyysgu cerdd dafod i offeiriaid, er mwyn adfywio'r grefft yn Ne Cymru, a chreu cyfnod newydd yn hanes y wlad. Bu gohebiaeth rhyngddo wedyn ac Ifor Ceri ar y mater, a rhyngddo a'r Esgob Burgess. Buasai'r esgob cyn hynny'n cwyno nad oedd yr offeiriaid yng Nghymru mor hyddysg yn yr iaith Gymraeg â'r pregethwyr yn yr enwadau ymneilltuol, a bod eu gweinidogaeth yn dioddef oherwydd hynny o ddifffyg. Dyma feirniadaeth ddiddorol iawn, gan mai digoleg ydoedd y pregethwyr ymneilltuol, gan mwyaf. Da fyddai gwybod pa le y gorweddai'r bai fwyaf, ai ar agwedd yr eglwys at Gymru neu ar natur yr addysg ddi-Gymraeg a gâi'r offeiriaid.

Pa fodd bynnag, yn Awst 1818 daeth yr Esgob Burgess i aros gyda Ficer Ceri, a buont yn trafod y pwnc o adfywio diddordeb yn niwylliant traddodiadol Cymru. Ffrwyth y drafodaeth hon oedd ffurfio'r Cymdeithasau Taleithiol yng Nghymru, a threfnu i'r rheiny yn eu tro gynnal eisteddfodau ar raddfa helaethach na dim a gynhaliwyd cyn hynny. Enynnwyd brwdfrydedd mawr, a llwyddwyd i ennill diddordeb llawer o'r teuluoedd bonheddig di-Gymraeg. Nid oedd amheuaeth ynghylch llwyddiant yr eisteddfod fawr gyntaf yng Nghaerfyrddin yn 1819 a'r rhai a'i dilynodd.



Mynnai Ifor Ceri mai'r Esgob Burgess a awgrymodd ffurfio'r Cymdeithasau Taleithiol, ond ar y ddau gyfaill Ifor Ceri a W. J. Rees, Casgob, yn anad neb y syrthiodd y gwaith mawr o drefnu i'w sefydlu ac i gynllunio'u gweithgareddau. Teithient i bwyllgorau ac ymohebent â'i gilydd ac â'r trefnyddion lleol ynghylch yr eisteddfodau. W. J. Rees oedd fwyaf amlwg yn yr eisteddfodau eu hunain. Yr oedd ef, fel yr offeiriad huawdl hwnnw, Carnhuanawc (Thomas Price), yn bur hoff o areithio ynddynt. Ond gŵr a weithiai'n ddiwyd wyladwrus yn y dirgel oedd Ifor Ceri, heb chwenych lle blaenllaw gerbron y cyhoedd. Ys dywedodd un ysgrifennwr. 'It may be said with reference to his exertions for the benefit of his native country, that he is one of those, who "Do good by stealth, and blush to find it fame".'<sup>1</sup>

Fel y dengys yr ohebiaeth a fu rhyngddo a Gwallter Mechain a W. J. Rees ac eraill, fe ystyrid ei farn ar bynciau llenyddol yn ddigon diogel iddynt hwy ac eraill ymgynghori ag ef ynghylch testunau'r eisteddfodau, ac fe ymddiriedid llawer o'r gwaith gweinyddol iddo hefyd. Er enghraifft, y mae ymhlith ei bapurau restr o feirdd a thelynorion a datgeiniaid ynghyd â phellter eu cartrefi o dref yr eisteddfod a'r swm a delid i bob un am ei wasanaeth (neu efallai am ei bresenoldeb!).<sup>2</sup>

Heblaw mudiad newydd y cymdeithasau a'u heisteddfodau fe gefnogai Ifor Ceri bob mudiad neu weithgarwch a geisiai hyrwyddo buddiannau diwylliannol Cymru. Cymerodd ran flaenllaw gyda W. J. Rees yn y gwaith o ailsefydlu Cymmrodorion Llundain yn 1820, ac yn 1821 yr oedd ef yn un o chwech o offeiriaid a etholwyd yn Aelodau Anrhydeddus o Gymdeithas y Gwyneddigion yn Llundain.<sup>3</sup>

<sup>1</sup> *Cambro-Briton*, ii. 333.

<sup>2</sup> NLW MS. 1918. Ymddengys mai Eisteddfod Wrecsam, 1820, oedd hon.

<sup>3</sup> *Cymmrodor*, l. 148-9; *Cambro-Briton*, ii. 236.

Ifor Ceri yn anad neb a hyrwyddodd sefydlu'r cylchgrawn Cymraeg cyntaf a gyhoeddwyd dan nawdd yr Eglwys Sefydledig, sef *Y Gwyllydydd* yn 1822. Fel hyn y datganodd ei reswm: 'There are at present four magazines published in Welsh by the four sects of Baptists, Methodists, Independents and Wesleyans. It struck me that a publication of Church principles, a more respectable appearance, containing a little of Natural History, Antiquities, etc., with Theology, might have the patronage of the Clergy'.<sup>1</sup> Fe gyfrannodd ysgrifau i'r *Gwyllydydd* ar faterion eglwysig dan yr enw 'Hooker'—yr unig ysgrifau a gyhoeddodd yn Gymraeg, mae'n debyg. Yr oedd yn gefnogydd hefyd i'r *Cambro-Briton*, cylchgrawn yn ymwneud â hanes a hynafiaethau dan olygiaeth John Humphreys Parry, golygydd cyntaf y *Cymmrodorion Transactions*. Bu wedyn yn cynorthwyo Pryce Buckley Williams o'r 'East India Board of Controul' i sefydlu'r *Cambrian Quarterly*, gan ei gynghori ynglŷn â'r math o ddefnydd y dylid ei ddisgwyl mewn cylchgrawn o'r math hwnnw, a helpu i chwilio am olygyddion cymwys. Dywedir iddo gyfrannu ysgrifau di-enw ar hynafiaethau i'r rhifynnau cyntaf.

Cyhoeddwyd disgrifiad hanesyddol a daearyddol o'i waith ar Blwyf Ceri yn 1811 yn *A Topographical Dictionary of the Dominion of Wales* gan Nicholas Carlisle, ac un arall ar y ddau blwyf, Ceri a Mochdref, yn *The History of North Wales* 'written and compiled by William Cathrall',<sup>2</sup> Manchester, 1828. Ni chydabuwyd ei gyfraniad yn y naill na'r llall, ac ni wyddem am yr ysgrifau hyn oni bai fod Ifor Ceri wedi cadw copi o'r ail ysgrif ac o'r llythyr a anfonodd gyda hi i'r Parch. Peter Bailey Williams, Rheithor Llanrug.<sup>2</sup> (Y mae'n amlwg, gyda llaw, mai tipyn o gnaf trachwantus, na wyddai ddim am Gymru, oedd

<sup>1</sup> *Cymmrodor*, l. 141.

<sup>2</sup> NLW MS. 1882; llythyr dyddiedig 2 Mehefin, 1828.

Cathrall. Ymgwymerodd Peter Bailey Williams â chasglu defnyddiau i'w *hanes*, nid er mwyn helpu Cathrall, nac er mwyn budd personol, ond er mwyn sicrhau bod y disgrifiadau'n gywir.) O holl ddiddordebau Ifor Ceri, ar wahân i'w waith clerigol, yr unig bynciau y bu'r addysg ffurfiol a gafodd yn help iddo ymgymhwyso i'w trin oedd hanes a hynafiaethau'i wlad, sef pynciau a oedd mewn bri ymhlith ysgolheigion yn ei oes ef yng Nghymru fel mewn gwledydd eraill.

Un arall o nodweddion ei oes oedd ei hoffter o ohebiaeth a'r gofal a'r drafferth a gymerai wrth ysgrifennu. Bu'n ddiwyd iawn hefyd yn gwneud copïau o'r llythyrau pwysicaf a ysgrifennodd—ynghylch llenyddiaeth a chylchgronau, ac yn enwedig ynghylch cerddoriaeth. Yn wir, yn ei lythyrau y gwelir ffrwyth peth o'i lafur pwysicaf.

Yr oedd yn barod iawn i roi anogaeth a chyfarwyddyd a chymorth i bobl ifainc y gwelai fod ganddynt ddoniau a diddordebau yn haeddu'u meithrin. Er enghraifft, bu'n annog Ieuan Glan Geirionydd ac Alun i ymbaratoi ar gyfer mynd yn offeiriaid ac yn eu cynorthwyo â'i haelioni a'i gyngor. Er na chyhoeddodd ef ddim barddoniaeth ei hunan, yr oedd ei chwaeth yn ddiogel a'i wybodaeth helaeth o fesurau'n gymhwyster mawr ynddo i gyfarwyddo beirdd ieuainc. Yr oedd y ddau delynegwr, Alun a Gwenffrwd, yn dra dyledus iddo. Ef hefyd a gefnogodd Arthur Johnes, Llyfrgellydd yr Ail Gymmrodorion, i ddysgu Cymraeg.

Mae'n sicr ddigon ei fod yn gymwynaswr mawr i bawb a ddeuai ar ei ofyn, ac fe droes ei haelioni yn destun ac yn gyfrwng canu. Diddorol, er enghraifft, yw'r cywydd gofyn yn null beirdd y bymthegfed ganrif a gyhoeddwyd yn y *Gwyllyddydd* yn 1823 gan ŵr ifanc a'i galwai'i hunan 'Gwilym Caledfryn' (wedi hynny, y Parch. William Williams, Caledfryn). Cywydd ydoedd hwn 'i ofyn

Geiriadur gan y Parch. John Jenkins, Ceri, Sir Drefaldwyn', a dyma'i ddechrau:

Enwog ŵr llawn o gariad,  
A gâr les gwŷr ei wlad,  
Carwr, mawrygwr yr iaith,  
Diwael awdwr dilediaith;  
Treiddiwr i'r iaith, harddiaith hon,  
A noddwr Awenyddion . . .

Hysbysir mewn nodyn ar ôl y cywydd fod y bardd ifanc wedi derbyn y geiriadur yn rhodd gan ei noddwr ac amryw lyfrau eraill hefyd. Y mae cyfeiriad hefyd at ei waith yn gwneud trefniant ar beth o waith cerddor a fuasai farw a'i yrru i'w gyhoeddi yn Llundain er mwyn helpu gweddw a theulu lluosog y cerddor marw.<sup>1</sup>

Mae'n wir fod byd pur dda ar y Parch. John Jenkins fel Ficer Ceri ac yntau hefyd yn brebend yn Eglwys Golegol Aberhonddu ac yn ddeon gwledig Maelliennydd. Ni chymerodd wraig ychwaith hyd nes bod yn dair ar ddeg a deugain mlwydd oed. Ar ddydd ei ben blwydd yn Ebrill 1823 y priodwyd ef ac Elisabeth Jones, merch y Parch. Edward Jones, Ficer Aberriw, a nith ac etifeddes Edward Heyward o Blas y Trawsgoed (Crosswood) ger y Trallwng. Yr oedd hithau'n ymddiddori mewn cerddoriaeth a barddoniaeth, ac adwaenid hi yng nghylch yr eisteddfodau wrth yr enw 'Eos y Bele'. Ysgrifennai benillion yn Gymraeg yn ogystal ag yn Saesneg.<sup>2</sup>

Hyd y gellir barnu, ni wnaeth ei briodas ddim gwahaniaeth i haelioni Ifor Ceri. Parhaodd y gwŷr wrth gerdd a'r cyfeillion eraill i ymgynnull yn y Ficerdy. Cawn gyfeiriadau at rai ohonynt yn lletya yno ar eu ffordd i eisteddfodau ac ar eu taith adref. Yn wir cyrhaeddodd y Dr. Wm. Owen Pughe a Robert Davies, Bardd Nantglyn, yno gyda'i gilydd ar eu ffordd i Eisteddfod Aberhonddu yn 1826, a chael fod y ficer wedi mynd oddi cartref

<sup>1</sup> *Cambro-Briton*, i. 284: nodiadau gan John Parry ar 'Welsh Music'.

<sup>2</sup> NLW MS. 1899: Lloffion Cymraeg.

gydag Esgob Tyddewi. 'Ond,' ychwanegodd y Doethur yn y llyfr cofnodion, 'bu i ni wrynâu haelioni Mrs. Jenkins tra lletyem yno.'<sup>1</sup>

Nid anghofiodd John Jenkins ei deulu ychwaith. Yn wir prin y cafodd gyfle i anghofio'i ddau frawd Thomas a Jeremiah, canys byd digon helbulus a gafodd y ddau, ac at eu brawd urddedig y troent am gymorth ym mhob cyfyngder, fel y dengys eu llythyrau cwynfannus ato.

Rhaid troi bellach at yr hyn oedd efallai'n brif ddi-ddordeb Ifor Ceri, sef cerddoriaeth draddodiadol y Cymry. Gallwn gredu Gwallter Mechain pan ddywed fod ganddo bereiddlais. Dyna ddawn werthfawr iawn i un yn ei swydd glerigol ef. Gwelsom ei fod yn gynein â chanu'r 'cello, a'r delyn hefyd efallai. Yn ystod ei oes fe gasglodd gannoedd o donau y clywodd eu canu ym mhob rhan o Gymru. Fe'u nodai ar bapur yn ofalus, yn alawon telyn, tonau emynau, salm donau, anthemau a cheinciau ar bob math o fesurau. Byddai'r un mor ofalus i nodi'r geiriau a genid ar y gwahanol fathau o alawon. Chwiliai am eiriau addas i alawon, ac weithiau fe ychwanegai fersiynau Saesneg o'i waith ei hun.

Yn Eisteddfod Powys (1820) yr oedd cerddor enwog o Gymro o Lundain o'r enw John Parry wedi dyfod i drefnu cerddoriaeth yr ŵyl, ac urddwyd ef dan yr enw 'Bardd Alaw'. Gwnaed ef yn drefnydd swyddogol y cyngherddau a gynhelid gyda'r eisteddfodau taleithiol, a chyn hir aeth yn ffrwgwd rhyngddo a hyrwyddwyr llengar yr Eisteddfod. Yn naturiol yr oedd Ifor Ceri yn un o'r rhai a wrthwynebai ddwyn mwy a mwy o gerddoriaeth estron i'r cyfarfodydd ar draul esgeuluso cerddoriaeth Gymreig a llenyddiaeth.

Boed hynny fel y bo, fe drosglwyddodd Ifor Ceri yn yr Eisteddfod honno i John Parry gasgliad o alawon Cymreig i wneud fel y mynnai â hwy. Yn yr ail gyfrol o'r

<sup>1</sup> NLW MS. 1899: Lloffion Cymraeg.

*Welsh Harper* (1848) cynhwysodd Bardd Alaw dôn o'i waith ei hun ar farwnad i Ifor Ceri, ac mewn nodyn fe ddywed hyn:

The elegy is a grateful offering to his memory by one who highly esteemed him, and to whom he is indebted for a great portion of airs inserted in this volume. A collection of which, in his own handwriting, amounting to one hundred and eighty seven, was presented to the Editor at Wrexham, in 1820, by Mr. Jenkins, who had been for thirty years making it, and noting down the various airs, as they were performed by the harpers in different parts of Wales, North and South.

Felly casgliad oedd hwn o alawon telyn, ac os yw 'thirty years' Bardd Alaw'n gywir, yr oedd Ifor Ceri wedi dechrau'r gwaith o gasglu tua 1790, tua'r adeg yr aeth i Rydychen. Dyna sut y gwyddai, mae'n ddiâu, am fywiog-rwydd rhai o alawon Gwent a Morgannwg, ac y gallai dynnu cysur ohonynt ar fwrdd y llong ryfel yn y Gorllewin pell.

Eithr nid oedd y casgliad cyntaf hwn ond rhan o'r hyn a roes ef i John Parry. Y mae ar gael gopi a wnaeth ef o lythyr maith a ysgrifennodd at y cerddor hwnnw yn 1826.<sup>1</sup> Gwrandawer ar y brawddegau cyntaf: 'I send you at length my long promised Lot 1st of Welsh Tunes. From this Specimen you will be able to judge whether you can turn them to any account. You will consider them, such as they are, your own, and do with them as you please. . . .'

A welwyd erioed ddyn o ysbryd mwy gostyngedig ac o galon fwy rhadlon? Meddylier amdano'n trosglwyddo ffrwyth llafur blynyddoedd, a phob hawl arno, i ŵr nad oedd yr un rhwymyn rhyngddo ac ef ond rhwymyn cariad at gelfyddyd!

Fe gorfforodd Bardd Alaw amryw o'r sylwadau sydd yn y llythyr hwn yn y Rhagymadrodd i'r ail gyfrol o'r

<sup>1</sup> NLW MS. 1882.

- (b) Ac eto: 'The Jenkins Kerry MSS. in the National Library, especially the two volumes *Melus Seiniau*, have been of great assistance to us in trying to unravel the history of popular song in Wales up to about 1820.'<sup>1</sup>

Heb un amheuaeth buasai cyfrolau'r Gymdeithas Alawon Gwerin yn llawer iawn tlotach oni bai am ddygnwch llafur Ifor Ceri a'i allu chwaethus i nithio a dosbarthu'r defnydd y câi hyd iddo. A buasai'n cenedlaeth ni yn llawer mwy anwybodus nag ydyw o'r modd y bu'n hynafiaid ni yn ymddiddanu ac yn mynnu mynegiant artistig i'w profiadau yn hyn o fyd.

Fe gafodd glod a pharch gan ddyinion am ei garedigrwydd a'i haelioni, ac fe'i hanrhydeddwyd gan ei Eglwys am ei wasanaeth fel offeiriad ac fel Cristion. Yr anrhydedd a roes iddo'r mwynhad puraf, efallai, oedd hwnnw a ddaeth i'w ran heb ei ddisgwyl bron yn niwedd ei oes, sef prebendaeth yn Eglwys Gadeiriol Caerefrog, a honno'n swydd o werth £600 y flwyddyn. Tâl oedd hyn am gymwynas a wnaethai'r Parch. John Jenkins pan oedd yn caplan ar y 'Theseus' â llanc a ddiodeffai'n drwm dan y fad felen, ac achub ei fywyd drwy hynny. Llwyddodd y caplan i gael caniatâd i'r bachgen fynd adref i Loegr, ac ymhen amser fe aeth hwnnw'n offeiriad. Erbyn 1828 yr oedd ei dad wedi'i ddyrchafu'n Archesgob, yr Archesgob Vernon, Caerefrog, ac yn ddiymdroi, gan gofio'r gymwynas gynt, fe gynigiodd y brebendaeth i'r cymwynaswr. I fod yn gymwys i'r swydd bu raid i Ifor Ceri dreulio peth amser yn Rhydychen er mwyn cael y radd o M.A., yn haf 1829. Ni chafodd fwynhau'r brebendaeth hon ond am ychydig fisoedd wedyn, canys ar yr ugeinfed o Dachwedd bu farw.

Nid yw'n debyg bod Ifor Ceri wedi disgwyl dim clod

<sup>1</sup> J.W.F.S. ii. 226.

am ei waith o blaid y Cymdeithasau Taleithiol a'r Eisteddfod. Diau mai'r tâl y gobeithiai amdano oedd gweld y mudiad yn llwyddo a Chymru ar ei hennill oblegid hynny. Ond yn hyn o beth fe'i siomwyd ef a'i gyfeillin yn fawr, er na adawodd ef i'w siomiant droi'n chwerwder. Tueddid fwyfwy i wthio'r Gymraeg hyd yn oed o'r eisteddfodau, ac aeth John Parry mor awyddus i geisio denu'r gwŷr mawr drwy dalu arian mawr i estroniaid am ganu, fel y bu i Ifor Ceri alw'r cyngherddau yn 'Anglo-Italian farce'.<sup>1</sup> Er hynny, yr oedd yn barod hyd y diwedd i roi o'i drysorau amhrisiadwy i John Parry yn gwbl ddi-dâl.

Bu'n lloffa mewn llawer maes a chopïodd gryn swm o farddoniaeth ac achau a phethau'n ymwneud â Chymru, ond ei waith ysgrifenedig mwyaf parhaol ei werth oedd ei gasgliadau o gerddoriaeth. Ni chafodd ddim elw o'r rhain, na chlod ychwaith yn ystod ei oes, canys ni wyddai'r byd amdanynt cyn cyhoeddi rhannau ohonynt ymhen blynyddoedd wedi ei farw.

Nid hawdd yw cyfrif am weithgarwch mawr Ifor Ceri. Ai oherwydd bod ynddo beth gwaed bonheddig yr etifeddodd anian yr uchelwyr gynt a fuasai'n noddi beirdd a cherddorion yn eu plasau? Digon prin. Eithr y mae'n sicr fod dysgu am wasanaeth yr uchelwyr hynny wedi peri iddo'u hedmygu, a'u hefelychu hefyd wedi ei gael ei hunan mewn safle gyfaddas. O'r braidd y gellir dweud bod yr addysg a gafodd, na helbulon ei flynyddoedd cynnar, wedi bod yn fantais iddo ymdrwytho yn hanes a thraddodiadau'i wlad. I ryw raddau, mae'n ddiâu, yr oedd ei ymroddiad difin i ddiogelu rhan o hen fywyd Cymru yn adwaith yn erbyn Seisnigrwydd cynyddol ei blwyf, ac yn erbyn dibristod lled gyffredinol offeiriad Cymru o'r Gymraeg a'r hen ddiwylliant.

Ni allaf lai na chredu bod diddordeb cariadus yn ei

<sup>1</sup> *Cymmrodor*, l. 159.

deulu a'i fro wedi greddfu ynddo yn ei ieuentid: bod y diddordeb hwnnw wedi ei fygu beth yn Rhydychen ac ar Ynys Wyth ac ar y môr (ond bod ambell bwl o hiraeth yn ei gyffroi), hyd nes i ryw awelon yn ystod ei arhosiad ym Maenor Deifi ddechrau ennyn fflam ynddo: ac yna bod y fflam honno wedi ei phorthi gan gyfeillgarwch ei gyd-nabod ym Maldwyn a pharhau'n dân cynnes yn ei galon. Felly yr adfeddiannodd ef ei wir dreftadaeth ac y cadwodd i Gymru ran werthfawr o'i chynhysgaeth hithau.

Rhoes Gwallter Mechain gywydd coffa iddo yn niwedd y cofiannau (Saesneg a Chymraeg) a ysgrifennodd ar ôl Ifor Ceri, acyn *The Gwyneddion* (1839), lle ceir 'Barddoniaeth Arobryn Eisteddfod Biwmaris' (1832), y mae dwy farwnad iddo, y naill gan Thomas Lloyd Jones (Glanffrwd) a'r llall gan y Parch. John Jones (Tegid),<sup>1</sup> dau o'i gyfeillion ifainc. Nid yw'r farddoniaeth ynddynt yn aruchel, ond y mae yn y tair cân y nodyn cywir o barch diffuant a serch at gymwynaswr mawr. Yng ngeiriau Glanffrwd dyma oedd Ifor Ceri:

Dihafal achles dawn a noddwr cerdd.

<sup>1</sup> Cyhoeddwyd marwnad Tegid i Ifor Ceri yn y *Cylchgrawn* gan Alun, rhifyn Tachwedd, 1834, tt. 338-9.

